# Cwricwlwm i Gymru

## CRYNODEB CLWSTWR LLANHARI

YSGOL GYNRADD DOLAU
Deffro mae'n ddydd
DOLAU PRIMARY SCHOOL

GORAU GWASANAETH GWAITH

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

### *Ymgysylltu â Rhanddeiliaid*

Mae cynllunio ein cwricwlwm wedi bod yn sgwrs barhaus rhwng holl randdeiliaid ein hysgolion i sicrhau ei fod yn ddilys i'n disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion a chyd-destun ein cymunedau. Mae'r dysgwyr wedi bod yn ganolog i'r broses a'u barn yn annatod. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'n cymunedau ehangach, wedi casglu barn ein rhieni a gofalwyr yn ogystal â'n llywodraethwyr drwy holiaduron a chyfarfodydd.

Fel clwstwr, mae trafodaethau wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar hyd y continwwm. Byddwn yn parhau i hysbysu ein rhanddeiliaid o unrhyw ddatbygiadau ac yn cynnig cyfleoedd cyson iddynt gynnig sylwadau. Byddwn hefyd yn parhau i fanteisio ar ystod o arbenigwyr o'r gymuned i gyfrannu at y dysgu a darparu profiadau unigryw a chyfoethog i'n disgyblion.

### *Cynnwys ein Cwricwlwm*

Y **Pedwar Diben** sydd wrth wraidd ein cwricwlwm a dyma yw ein dyhead ar gyfer bob un o'n dysgwyr.  Mae cwricwlwm ein hysgolion yn eang, cytbwys a chynhwysol ac yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau.  Mae'n cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws bob un o'r **Chwe Maes Dysgu a Phrofiad** ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Wrth wireddu'r cwricwlwm, byddwn yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith ynghyd ag addysg hawliau dynol ac amrywiaeth.  Rhown ystyriaeth lawn hefyd i **elfennau gorfodol** y Cwricwlwm, sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), Cymraeg a Saesneg. Mae **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm a sicrhewn fod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu, mireinio a chymhwyso'r sgiliau yma ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

### *Cynnydd ac Asesu*

Cynnydd o fewn dysgu yw'r broses o ddatblygu a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dros amser. Yr **Egwyddorion Cynnydd** yw'r sylfaen i'n cwricwlwm o fewn y clwstwr. Yn ogystal â hyn, mae'r **Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig** a'r **Disgrifiadau Dysgu** yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ein dysgwyr symud ymlaen ar draws ein continwwm dysgu.

Asesu yw'r broses o edrych ar gynnydd ein dysgwyr. Fel clwstwr, hoffem i'n dysgwyr wybod ble maen nhw ar eu taith ddysgu, i ble mae angen iddyn nhw fynd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i gyrraedd yno. Rydym yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd trwy asesu ar gyfer dysgu yn ogystal â nodi cynnydd dysgwyr unigol dros amser.

### *Adolygu ein Cwricwlwm*

Trwy ein prosesau hunanwerthuso cadarn a thryloyw byddwn yn parhau i adolygu a mireinio ein cwricwlwm er mwyn cryfhau ein dysgu ac addysgu a sirhau cynnydd i bob dysgwr unigol. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein dysgwyr ac yn adlewyrchu ein hegwyddorion.

Byddwn yn gweithio o fewn ein hysgolion, ar draws ein clwstwr ac mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a fydd yn sicrhau continwwm dysgu 3-16 o'r ansawdd orau. Bydd llais y dysgwr yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein prosesau hunan arfarnu.

# Curriculum for Wales

## LLANHARI CLUSTER SUMMARY

### *Stakeholder Engagement*

Planning our curriculum has been an ongoing conversation between all stakeholders within our schools to ensure that it is relevant for our pupils and reflects the needs and contexts of our communities. The learners have been central to the process and their views integral. We have also engaged with our wider communities, gathered the views of our parents and carers as well as our governors through questionnaires and meetings.

As a cluster, discussions have been key in order to ensure consistency for learners along the continuum. We will continue to inform our stakeholders of any developments and offer them regular opportunities to contribute. We will also continue to take advantage of a range of experts from the community to contribute to the learning and provide unique and enriching experiences for our pupils.

### *Curriculum Content*

The **Four Purposes** are at the heart of our curriculum and this is our aspiration for all of our learners. Our schools' curriculum is broad, balanced and inclusive and suitable for learners of different ages, abilities and talents. It includes learning opportunities within and across each of the **Six Areas of Learning and Experience** and covers the statements of what matters. In realising the curriculum, we will foster our learners' understanding of careers education and experiences linked to the world of work, together with human rights and diversity education. We will also give full consideration to the **mandatory elements** of the curriculum, namely Religion, Values and Ethics (RVE), Relationships and Sexuality Education (RSE), Welsh and English. The **cross-curricular skills** of literacy, numeracy and digital competence are embedded throughout the curriculum and we ensure that there are enough opportunities for pupils to develop, refine and apply these skills across the areas of learning and experience.

### *Progression and Assessment*

Progress within learning is the process of developing and improving skills, knowledge and understanding over time. The **Principles of Progression** are the foundation of our curriculum within the cluster. In addition to this, the **Statements of What Matters** and **Descriptions of Learning** provide guidance on how our learners should progress across our learning continuum.

Assessment is the process of looking at the progress of our learners. As a cluster, we would like our learners to know where they are on their learning journey, where they need to go, and what they need to do to get there. We support individual learners continuously, day by day, by using assessment for learning as well as identifying individual learners' progress over time.

### *Reviewing our Curriculum*

Through our robust and transparent self-evaluation processes, we will continue to review and refine our curriculum in order to strengthen our teaching and learning and ensure progress for each individual learner. This will ensure that it meets the needs of our learners and reflects our principles.

We will work within our schools, across our cluster and in partnership with our stakeholders to further develop our common understanding of progress which will ensure a 3-16 learning continuum of the highest quality. Learner voice will continue to play a key role in our self-evaluation processes.